

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 No. 814

**Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr)
(Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018**

Rhan 4

Diwygiadau sy'n ymwneud â statws mewnfudo myfyrwyr

Diwygio Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007

39. Mae Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(1) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 40 ac 41.

40. Yn rheoliad 5 (dyfarniadau gan awdurdodau lleol), ym mharagraff (1)—

- (a) yn is-baragraff (b), yn lle “o fewn paragraff 5” rhodder “o fewn paragraffau 4A a 5”;
- (b) yn is-baragraff (c), yn lle “o fewn paragraffau 5 a 9” rhodder “o fewn paragraffau 4A, 5 a 9.”

41. Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 1—

(i) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“ystyr “person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth” (“*person granted stateless leave*”) yw person—

(a) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo; a

(b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person;”;

“ystyr “rheolau mewnfudo” (“*immigration rules*”) yw'r rheolau a osodir gerbron Senedd y Deyrnas Unedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971;”;

(ii) yn lle'r diffiniad o “person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu aros” rhodder—

“ystyr “person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros” (“*person with leave to enter or remain*”) yw person (“P”)—

(a) sydd—

- (i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn gymwys i gael ei gydnabod yn ffoadur, y credir ei bod yn iawn caniatáu i P ddod i mewn i'r

(1) O.S. 2007/2310 (Cy. 181) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2010/1142 (Cy. 101) ac O.S. 2011/1978 (Cy. 218); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgrisiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;

- (ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn caniatáu i P ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgrisiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;
 - (iii) wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo; neu
 - (iv) wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn gymwys i gael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo, fod P wedi cael caniatâd i aros y tu allan i'r rheolau(2) ar sail Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;
- (b) nad yw cyfnod ei ganiatâd i ddod i mewn neu i aros wedi dod i ben, neu y mae'r cyfnod hwnnw wedi ei adnewyddu ac nad yw'r cyfnod y cafodd ei adnewyddu ar ei gyfer wedi dod i ben, neu y mae apêl yn yr arfaeth (o fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002(3)) mewn cysylltiad â'i ganiatâd i ddod i mewn neu i aros; ac
 - (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i P gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros;"

(b) ar ôl paragraff 4 (ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd) mewnosoder—

“Personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teuluoedd

4A.—(1) Person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth—

- (a) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

- (a) (i) y'n briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth; a
 - (ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Mae paragraff 276BE(2) o'r rheolau mewnfudo yn cyfeirio at hyn.

(3) 2002 p. 41. Diwygiwyd adran 104 gan Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Ceiswyr, etc.) 2004, Atodlenni 2 a 4, Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 (p. 13), adran 19, O.S. 2010/21 a Deddf Mewnfudo 2014 (p. 22), Atodlen 9.

(3) Person—

(a) (i) y'n blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth; a

(ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n blentyn i berson a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth;

(b) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros;

(c) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac

(ch) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i aros” yw'r dyddiad y gwnaeth person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth gais i aros yn y Deyrnas Unedig fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo.”;

(c) ym mharagraff 5 (personau â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teulu)—

(i) yn lle is-baragraff (2)(b) rhodder—

“(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros; ac”;

(ii) yn lle is-baragraff (3)(b) rhodder—

“(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn blentyn i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;”;

(iii) yn lle is-baragraff (3)(c) rhodder—

“(c) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros; ac”;

(iv) ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder—

“(4) Yn y paragraff hwn, ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i aros” yw'r dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi.”

Diwygio Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014

42. Mae Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014(4) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 43 i 45.

43. Yn rheoliad 3—

(a) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“ystyr “person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth” (“*person granted stateless leave*”) yw person—

(a) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo; a

(b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynnysoedd drwy gydol y cyfnod ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person;" ac

"ystyr "rheolau mewnfudo" ("*immigration rules*") yw'r rheolau a osodir gerbron Senedd y Deyrnas Unedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971;"

(b) yn lle paragraffau (a) a (b) yn y diffiniad o "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros", rhodder—

"(a) sydd—

(i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw A yn cymhwyso i gael ei gydnabod yn ffoadur, y credir ei bod yn iawn caniatáu i A ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgrisiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;

(ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn caniatáu i A ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgrisiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;

(iii) wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo; neu

(iv) wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw A yn cymhwyso i gael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo, fod A wedi cael caniatâd i aros y tu allan i'r rheolau(5) ar sail Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;"

44. Yn rheoliad 6 (myfyriwr cymwys), ar ôl paragraff (9) mewnosoder—

"(9A) Pan fo—

(a) Gweinidogion Cymru wedi penderfynu bod person ("A" yn y paragraff hwn), yn rhinwedd y ffaith ei fod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth, neu'n briod, partner sifil, plentyn neu lysblentyn i berson o'r fath, yn fyfyrwr cymwys mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer un o flynyddoedd cynharach y cwrs cyfredol neu mewn cysylltiad â chais am gymorth ar gyfer cwrs dynodedig yn yr Athrofa y trosglwyddwyd statws A fel myfyriwr cymwys ohono i'r cwrs cyfredol; a

(b) y cyfnod a ganiateir i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth yn y Deyrnas Unedig i fod i ddod i ben cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academiaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi ac nad oes, ar y diwrnod cyn bod y flwyddyn academiaidd honno'n dechrau, unrhyw ganiatâd pellach i aros wedi ei roi ac nad oes unrhyw gais am adolygiad gweinyddol yn unol â'r rheolau mewnfudo(6) yn yr arfaeth,

mae statws A fel myfyriwr cymwys yn terfynu ar y diwrnod cyn diwrnod cyntaf y flwyddyn academiaidd y mae A yn gwneud cais am gymorth mewn cysylltiad â hi."

45. Yn Atodlen 1—

(5) Mae paragraff 276BE(2) o'r rheolau mewnfudo yn cyfeirio at hyn.

(6) *Gweler* "Appendix AR: administrative review".

(a) ar ôl paragraff 4 (ffoaduriaid) mewnosoder—

“Personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o’u teuluoedd

4A.—(1) Person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth—

- (a) sy’n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

- (a) (i) y’n briod neu’n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth; a
 - (ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu’n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth;
- (b) sy’n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

- (a) (i) y’n blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu’n blentyn i briod neu i bartner sifil person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth; a
 - (ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu’n blentyn i berson a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu’n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth;
- (b) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros;
- (c) sy’n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i aros” yw’r dyddiad y gwnaeth person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth gais i aros yn y Deyrnas Unedig fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo.”;

(b) ym mharagraff 5—

(i) yn lle is-baragraff (2)(b) rhodder—

“(b) a oedd yn briod neu’n bartner sifil i’r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros;”;

(ii) yn lle is-baragraff (3)(b) rhodder—

“(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn blentyn i’r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu’n blentyn i berson a oedd

yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;”;

(iii) yn lle is-baragraff (3)(c) rhodder—

“(c) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros;”;

(iv) ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder—

“(4) Yn y paragraff hwn, ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i aros” yw'r dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi.”

Diwygio Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015

46. Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015(7) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 47 i 49.

47. Yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1)—

(a) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“ystyr “Rheoliadau 2017” (*“the 2017 Regulations”*) yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2017(8);”;

“ystyr “Rheoliadau 2018” (*“the 2018 Regulations”*) yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018(9);”;

(b) yn y diffiniad o “cwrs penben”, ar ôl “Reoliadau 2015” mewnosoder “ neu reoliad 2(1) o Reoliadau 2017”;

(c) yn y diffiniad o “cwrs blaenorol”, ar ôl “Reoliadau 2015” mewnosoder “, cwrs a grybwyllir ym mharagraff 2 neu 3 o Atodlen 2 i Reoliadau 2017”; a

(d) yn lle'r diffiniad o “cwrs sengl” rhodder—

“ystyr “cwrs sengl” (*“single course”*) yw cwrs—

(a) y mae rheoliad 5(6) o Reoliadau 2015 yn gymwys iddo ac sy'n dod o fewn y disgrifiad o gwrs yn y rheoliad hwnnw;

(b) y mae rheoliad 5(6) o Reoliadau 2017 yn gymwys iddo ac sy'n dod o fewn y disgrifiad o gwrs yn y rheoliad hwnnw; neu

(c) y mae rheoliad 6(4) o Reoliadau 2018 yn gymwys iddo ac sy'n dod o fewn y disgrifiad o gwrs yn rheoliad 6(3) o Reoliadau 2018.”

48. Yn rheoliad 4 (disgrifiad rhagnodedig o berson cymhwysol), yn lle paragraff (1) rhodder—

“(1) Mae person cymhwysol a ragnodir at ddibenion adran 5(5) o Ddeddf 2015 yn berson sy'n dod o fewn yr Atodlen ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd, ac eithrio—

(a) person nad yw'n gymwys i gael cymorth o dan Reoliadau 2015 oherwydd rheoliad 4(3)(c), (d), (e) neu (f) o'r Rheoliadau hynny;

(b) person nad yw'n gymwys i gael cymorth o dan Reoliadau 2017 oherwydd rheoliad 4(3)(c), (d), (e) neu (f) o'r Rheoliadau hynny;

(c) person nad yw'n gymwys i gael cymorth o dan Reoliadau 2018 oherwydd ei fod yn berson y mae Eithriad 3, paragraff (a), Eithriad 4, Eithriad 5 neu Eithriad 6 a restrir yn rheoliad 10(1) o'r Rheoliadau hynny yn gymwys iddo; neu

(7) O.S. 2015/1484 (Cy. 163), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2016/276 (Cy. 100).

(8) O.S. 2017/47 (Cy. 21).

(9) O.S. 2018/191 (Cy. 42).

(d) person a grybwyllir ym mharagraffau (2), (3), neu (8).”

49. Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 1(1)—

(i) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“ystyr “person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth” (“*person granted stateless leave*”) yw person—

(a) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo; a

(b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i'r caniatâd hwnnw gael ei roi i'r person;”;

“ystyr “rheolau mewnfudo” (“*immigration rules*”) yw'r rheolau a osodir gerbron Senedd y Deyrnas Unedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971;”;

(ii) yn lle paragraffau (a) a (b) o'r diffiniad o “person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros” rhodder—

“(a) sydd—

(i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn gymwys i gael ei gydnabod yn ffoadur, y credir ei bod yn iawn caniatáu iddo ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgrisiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;

(ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn caniatáu i P ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgrisiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;

(iii) wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo; neu

(iv) wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn gymwys i gael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo, fod P wedi cael caniatâd i aros y tu allan i'r rheolau(10) ar sail Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;”;

(b) ar ôl paragraff 4 (ffoaduriaid ac aelodau o'u teulu) mewnosoder—

“Personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teulu

4A.—(1) Person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth—

(a) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a

(10) Mae paragraff 276BE(2) o'r rheolau mewnfudo yn cyfeirio at hyn.

- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.
- (2) Person—
- (a) (i) y'n briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth; a
- (ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.
- (3) Person—
- (a) (i) y'n blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth; a
- (ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n blentyn i berson a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth;
- (b) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs.
- (4) Yn y paragraff hwn, ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i aros" yw'r dyddiad y gwnaeth y person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth gais i aros yn y Deyrnas Unedig fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnffudo.”;
- (c) ym mharagraff 5 (personau â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teulu)—
- (i) yn lle is-baragraff (2)(b) rhodder—
- “(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros; ac”;
- (ii) yn lle is-baragraff (3)(b) rhodder—
- “(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn blentyn i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;”;
- (iii) yn lle is-baragraff (3)(c) rhodder—
- “(c) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros; a”;
- (iv) ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder—

“(4) Yn y paragraff hwn, ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i aros” yw’r dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu aros ynddi.”

Diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017

50. Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017(11) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 51 i 53.

51. Yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1)—

(a) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

“ystyr “person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth” (“*person granted stateless leave*”) yw person—

(a) y mae ganddo ganiatâd cyfredol i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo; a

(b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a’r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod ers i’r caniatâd hwnnw gael ei roi i’r person;”;

“ystyr “rheolau mewnfudo” (“*immigration rules*”) yw’r rheolau a osodir gerbron Senedd y Deyrnas Unedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971;”;

(b) yn lle paragraffau (a) a (b) o’r diffiniad o “person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros” rhodder—

“(a) sydd—

(i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i’r cais hwnnw, wedi ei hysbysu’n ysgrifenedig gan berson sy’n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw A yn gymwys i gael ei gydnabod yn ffoadur, y credir ei bod yn iawn caniatáu iddo ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgresiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;

(ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu’n ysgrifenedig gan berson sy’n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn caniatáu i A ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgresiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;

(iii) wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo; neu

(iv) wedi ei hysbysu’n ysgrifenedig gan berson sy’n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw A yn gymwys i gael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo, fod A wedi cael caniatâd i aros y tu allan i’r rheolau(12) ar sail Erthygl 8 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;”.

52. Yn rheoliad 8 (digwyddiadau), ym mharagraff (b), ar ôl “yn cael ei gydnabod yn ffoadur neu’n” mewnosoder “dod yn berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu’n”.

53. Yn Atodlen 1—

(11) O.S. 2017/523 (Cy. 109), fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2017/712 (Cy. 169) ac O.S. 2018/277 (Cy. 53).

(12) Mae paragraff 276BE(2) o’r rheolau mewnfudo yn cyfeirio at hyn.

- (a) ar ôl paragraff 4 (ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd) mewnosoder—

“Personau y rhoddwyd caniatâd iddynt aros fel personau diwladwriaeth ac aelodau o'u teuluoedd

4A.—(1) Person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth—

- (a) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a
- (b) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

- (a) (i) y'n briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth; a
- (ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth;
- (b) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac
- (c) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn blwyddyn gyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

- (a) (i) y'n blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth; a
- (ii) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn blentyn i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth neu'n blentyn i berson a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth;
- (b) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros;
- (c) sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; a
- (d) sydd wedi bod yn preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn, ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i aros” yw'r dyddiad y gwnaeth person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel person diwladwriaeth gais i aros yn y Deyrnas Unedig fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo.”;

- (b) ym mharagraff 5 (personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd)—

(i) yn lle is-baragraff (2)(b) rhodder—

“(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros;”;

(ii) yn lle is-baragraff (3)(b) rhodder—

“(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn blentyn i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n blentyn i berson a oedd

yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;";

(iii) yn lle is-baragraff (3)(c) rhodder—

“(c) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros;”; a

(iv) ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder—

“(4) Yn y paragraff hwn, ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i aros” yw'r dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi.”

Diwygio Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018

54. Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018(13) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 55 a 56.

55. Yn rheoliad 2 (dehongli), ym mharagraff (1), yn lle paragraffau (a) a (b) o'r diffiniad o “person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros” rhodder—

“(a) sydd—

(i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw A yn cymhwyso i'w gydnabod yn ffoadur, y credir ei bod yn iawn caniatáu iddo ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail diogelwch dyngarol neu ganiatâd yn ôl disgrisiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;

(ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn caniatáu i A ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgrisiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny;

(iii) wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo; neu

(iv) wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw A yn cymhwyso i gael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo, fod A wedi cael caniatâd i aros y tu allan i'r rheolau(14) ar sail Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol;”.

56. Yn Atodlen 1, paragraff 6 (personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd)—

(a) yn lle is-baragraff (2)(b) rhodder—

“(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros;”;

(b) yn lle is-baragraff (3)(b) rhodder—

“(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros, yn blentyn i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw;”;

(c) yn lle is-baragraff (3)(c) rhodder—

(13) O.S. 2018/656 (Cy. 124).

(14) Mae paragraff 376BE(2) o'r rheolau mewnfudo yn cyfeirio at hyn.

- “(c) a oedd o dan 18 oed ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i aros;” a
(d) ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder—

“(4) Yn y paragraff hwn, ystyr “dyddiad y cais i gael caniatâd i aros” yw’r dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i ddod i mewn i’r Deyrnas Unedig neu aros ynddi.”